

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad ar waith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Nodir isod yr Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad:

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Mae'r Pwyllgor yn ystyried mai diffyg arweinyddiaeth strategol ar lefel Llywodraeth Cymru a lefel awdurdodau lleol sydd i'w gyfrif am y diffyg cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Ni ellir gwireddu uchelgais y Ddeddf drwy weithredoedd dim ond dyrnaid o swyddogion beicio/trafnidiaeth penodol. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau ei harweinyddiaeth, a dylai nodi'n glir ei disgwyliadau mewn perthynas ag arweinyddiaeth ar lefel leol.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dangos arweinyddiaeth wrth roi'r Ddeddf Teithio Llesol ar waith. Mae rôl bwysig teithio llesol o ran cyflawni nodau Llywodraeth Cymru wedi'i ymgorffori yn Ffyniant i Bawb a'r Cynllun Gweithredu Economaidd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer pob awdurdod lleol i'w cefnogi yn eu dyletswyddau statudol ac mae'n darparu arian sylweddol i awdurdodau.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn parhau i hybu'r agenda hon yn ei rôl fel Gweinidog arweiniol sy'n gyfrifol am y portffolio, fel y gwelir hefyd drwy ei bresenoldeb rheolaidd yn y Bwrdd Teithio Llesol. Mae'r Bwrdd yn gweithio ar draws partneriaid yng Nghymru i wneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigir gan Deithio Llesol. Mae gan Awdurdodau Lleol ran allweddol i'w chwarae hefyd o ran cyflawni dyheadau'r Ddeddf.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru arwain adolygiad o'r broses fapio yn seiliedig ar ddysgu gwersi er mwyn symleiddio prosesau a gwella'r dull gweithredu yn ôl yr angen

Ymateb: Derbyn

Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn dilyn cam cyntaf y broses fapio ar gyfer Mapiau Llwybrau Presennol er mwyn nodi unrhyw broblemau gyda'r system fapio. Aethpwyd i'r afael â'r mwyafrif o'r rhain yn ystod proses ailwampio a ragflaenodd y cam i Fapio Rhwydwaith Integredig. Bydd

Llywodraeth Cymru yn gweithio ag awdurdodau lleol i nodi unrhyw welliannau pellach a wneir o bosibl cyn cychwyn y cyfnod mapio mawr nesaf.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Y costau fydd amser staff Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner a gaiff eu talu gan y cyllidebau Costau Rhedeg Isadrannol presennol.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru arwain ymarfer gwersi a ddysgwyd ar yr ymgynghoriad ar Deithio Llesol er mwyn canfod arfer gorau a chofnodi ffyrdd arloesol o gyrraedd pobl nad ydynt yn cerdded nac yn beicio ar hyn o bryd.

Ymateb: Derbyn

Drwy gydol y broses o roi'r Ddeddf ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol i sicrhau bod datblygiad cynlluniau rhwydwaith, opsiynau llwybrau a gwaith dylunio cynlluniau yn adlewyrchu anghenion y gymuned. Adlewyrchir hyn yn y Canllawiau Cyflawni a Dylunio, mewn llythyrau at awdurdodau lleol, ac mewn nodiadau cyngor ar gyfer proses y Map Rhwydwaith Integredig. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gweithio â Guide Dogs Cymru i ddrafftio cyngor penodol ynglŷn â sut i ymgysylltu â phobl ddall a phobl sydd wedi colli eu golwg a thrafodwyd y pwnc yn gyson yn y Cynadleddau Blynyddol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ledled Cymru i nodi a rhannu enghreifftiau da o ymgynghori ac ymgysylltu llwyddiannus, yn arbennig lle y targedwyd unigolion a grwpiau nad ydynt yn ymgysylltu'n hawdd â theithio llesol.

Goblygiadau Ariannol – Y costau pennaf fydd amser staff yn Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner gyda mân gostau ychwanegol megis cyfieithu a lleoliadau. Caiff y rhain eu talu o gyllidebau Costau Rhedeg Isadrannol a chyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol, dylai awdurdodau lleol gynnwys y grwpiau Mynediad sy'n bodoli ledled Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae ymgynghori â Fforymau Mynediad Lleol eisoes yn rhan o'r Canllawiau Cyflawni fel y nodir ym mharagraff 3.47. Gellir cynnwys enghreifftiau da o sut y gellir cyflawni hyn fel rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig ag argymhelliad 3.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei chanllawiau statudol i gynnwys cyd-gynhyrchu fel safon ofynnol ar gyfer cyflawni Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn rhan o'r ateb i'r broblem yn ogystal â'r broses o nodi'r broblem.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried technegau cyd-gynhyrchu fel modd hynod werthfawr i ddatblygu cynlluniau da sy'n diwallu anghenion defnyddwyr. Mae'n hanfodol bod cyd-gynhyrchu yn seiliedig ar ymddiriedaeth a bod yn agored ac awydd gwirioneddol i gydweithio. Rydym o'r farn y gallai mynnu bod cyd-gynhyrchu'n digwydd fod yn wrthgynhyrchiol a thanseilio'r egwyddorion allweddol hyn, gan weithredu yn lle hynny fel rhwystr i ddatblygiad rhai cynlluniau. Rydym eisoes yn annog awdurdodau lleol i fabwysiadu cyd-gynhyrchu, gan dynnu sylw at a lledaenu'r enghreifftiau hyn a'r manteision a ddaw yn sgil y dull, a chefnogi cynlluniau cyfalaf sy'n gweithredu egwyddorion cyd-gynhyrchu. Mae cynlluniau sy'n gallu darparu tystiolaeth o ymgysylltu cryf, gan gynnwys cyd-gynhyrchu, yn fwy tebygol o ddangos bod ganddo achos cryf dros gael cyllid.

Goblygiadau Ariannol – Gall technegau cyd-gynhyrchu gynyddu costau dylunio cynllun, felly gall costau cyffredinol fod 5-10% yn uwch na chynlluniau cyffelyb, sy'n golygu y gellir ariannu llai o gynlluniau o'r un gyllideb. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall cyd-gynhyrchu arwain at nodi atebion rhatach fel y rhai gorau.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrrff proffesiynol datblygwyr a pheirianwyr sifil, awdurdodau lleol a staff Llywodraeth Cymru ei hun i fynd i'r afael â'r rhwystrau diwylliannol i weithredu canllawiau teithio llesol, yn enwedig drwy hyfforddiant a rheoli'r broses o newid diwylliant.

Ymateb: Derbyn

Pan gyhoeddwyd Canllawiau Dylunio Teithio Llesol am y tro cyntaf, cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth i ddefnyddwyr proffesiynol gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cael ei ailadrodd ar ôl i'r Canllawiau Dylunio gael eu

diweddar. Byddwn yn gweithio gyda'r cyrff proffesiynol i sicrhau mwy o drafodaeth gyson am faterion teithio llesol yn y sefyllfaoedd hynny, gan gynnwys fel rhan o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, yn cynnwys polisi teithio llesol ehangach a materion technegol.

Goblygiadau Ariannol – Y costau pennaf fydd amser staff yn Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner gyda mân gostau ychwanegol megis cyfieithu a lleoliadau. Caiff y rhain eu talu o gyllidebau Costau Rhedeg Isadrannol a chyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r adolygiad presennol o Bolisi Cynllunio Cymru a'r adolygiad o ganllawiau cynllunio fel cyfle i gryfhau'r gefnogaeth ar gyfer teithio llesol ac ailadrodd pwysigrwydd ystyried teithio llesol ym mhob prosiect seilwaith newydd. Dylai teithio llesol fod yn hanfodol yn hytrach na dewisol.

Ymateb: Derbyn.

Mae'r argymhelliad hwn yn adlewyrchu ein safbwynt yn yr ymgynghoriad diweddar ar fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru. Rydym yn cynnig cryfhau polisi ar deithio llesol ac integreiddio darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ymhellach gyda'r system gynllunio. Rydym hefyd yn cynnig rhoi mwy o bwyslais ar yr hierarchaeth trafniadaeth, sy'n blaenoriaethu cerdded a beicio, ac ar greu strydoedd wedi'u cynllunio'n dda ac sy'n ymateb i ofynion pobl. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a byddwn yn edrych ar gryfhau ein cefnogaeth ymhellach i deithio llesol.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio ei chanllawiau er mwyn cynnwys "Aneddiadau cysylltiedig" yn y Ddeddf, gan alluogi datblygu llwybrau teithio llesol rhwng aneddiadau gwledig llai.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyflwyno categori anheddiad newydd yn ddiangen. Mae'r Canllawiau Cyflawni Teithio Llesol eisoes yn nodi mai'r ardaloedd dynodedig yw'r lleoedd y mae'n rhaid i'r dyletswyddau mapio o dan y Ddeddf eu cwmpasu. Mae hefyd yn nodi'n glir y gall awdurdodau lleol fapio y tu hwnt i ffiniau'r aneddiadau a chynllunio a gwella llwybrau mewn lleoedd eraill (paragraff 2.4 a 2.10).

Bydd arian grant yn gysylltiedig â'r gwaith o adeiladu a gwella llwybrau teithio llesol ar Fapiau Rhwydwaith Integredig, ond ni chyfyngir hyn i'r ardaloedd dynodedig, lle mae Mapiau Rhwydwaith Integredig wedi'u paratoi ar gyfer lleoedd eraill.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Yn ei hadolygiad o'r canllawiau dylunio, dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod yr offeryn archwilio yn cyd-fynd â safonau'r canllawiau.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r anghysondebau hyn yn y ddogfen newydd.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mae'r diweddariad o'r Canllawiau Dylunio eisoes ar y gweill a gellir ei gynnwys o fewn y gwaith hwn.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu arian i ddatblygu cynlluniau cerdded a beicio gwledig llai o faint nad ydynt o reidrwydd yn cyflawni gofynion teithio llesol, ond a fyddai'n effeithio ar gymunedau lleol a allai golli cyfle fel arall.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae pwyslais y Ddeddf Teithio Llesol ar gerdded a beicio fel math o drafnidiaeth. Rydym eisieu i bobl fwynhau cerdded a beicio at ddibenion hamdden ac mewn nifer o achosion bydd llwybrau'n ateb y ddau ddiben. Bydd yr arian a fydd ar gael drwy'r Gronfa Teithio Llesol yn canolbwyntio ar wireddu llwybrau teithio llesol sy'n rhan o'r Mapiau Rhwydwaith Integredig. Byddwn yn gweithio ar draws y llywodraeth a chyda phartneriaid allanol i nodi cyfleoedd i ariannu llwybrau nad ydynt ar Fapiau Rhwydwaith Integredig, lle ceir achos da dros wneud hynny. Gall hyn gynnwys amryw o sectorau megis twristiaeth, adfywio, economi wledig.

Goblygiadau Ariannol – Ddim yn hysbys. Bydd y penderfyniad i gyllido cynlluniau a faint o gyllid i'w roi iddynt yn dibynnu ar feini prawf cyllido ar gyfer rhaglenni unigol.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir, mewn achosion lle na ellir ond cymhwyso'r canllawiau mewn modd hyblyg, y dylid ymgymryd â phroses gynhyrchu gyda grwpiau lleol amrywiol i sicrhau bod yr atebion sy'n cael eu datblygu yn addas ar gyfer anghenion y gymuned cyhyd ag y bo modd. Dylai cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau fod yn amodol ar fodloni'r disgwyliad hwn.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu ac ymgynghori, yn arbennig gydag unrhyw grwpiau o ddefnyddwyr a allai gael eu heffeithio'n benodol neu sydd â nodweddion gwarchoddedig, a byddwn yn defnyddio'r diweddariad i'r Canllawiau Dylunio a chanllawiau gwneud cais am grant i'r Gronfa Teithio Llesol i egluro'r camau sydd angen eu cymryd lle y tybir bod gwriad sylweddol o'r canllawiau dylunio yn angenrheidiol. Bydd angen i hyn gynnwys ymgynghoriad ac ymgysylltiad effeithiol â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr.

Goblygiadau Ariannol – Y costau pennaf fydd amser staff Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Caiff y rhain eu talu o gyllidebau Costau Rhedeg Isadrannol presennol.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru ad-drefnu'r Bwrdd Teithio Llesol gan benodi cadeirydd annibynnol, a rhoi iddo gylch gorchwyl sy'n rhoi dannedd iddo ac yn sicrhau effaith. Dylai'r Bwrdd fod yn gyfrifol am fonitro cynnydd ar y Cynllun Gweithredu, gan greu a chytuno ar dargedau cyflawni gydag Ysgrifennydd y Cabinet.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Addaswyd aelodaeth y Bwrdd Teithio Llesol yn ddiweddar gan gryfhau cynrychiolaeth awdurdodau lleol. Mae'r Bwrdd wedi ystyried yr argymhelliad hwn ac mae o'r farn nad oes angen newid y trefniadau cadeirio ar fyrder, ond bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn parhau i adolygu'r mater.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Y costau pennaf fydd amser staff Llywodraeth Cymru. Caiff y rhain eu talu o gyllidebau Costau Rhedeg Isadrannol presennol.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylid adolygu aelodaeth y Bwrdd i sicrhau bod y bobl iawn yn bresennol. Mae'r

Pwyllgor yn argymhell, gan y dylai'r Bwrdd fod yn monitro'r cynnydd ar y Cynllun Gweithredu, na ddylai'r aelodaeth gynnwys pobl sy'n aelodau o Lywodraeth Cymru, na'u swyddogion

Ymateb: Gwrthod

Trafodwyd yr argymhelliad hwn gan y Bwrdd Teithio Llesol. Roedd yn unfrydol bod presenoldeb Ysgrifennydd y Cabinet a swyddogion Llywodraeth Cymru yn hanfodol i sicrhau trafodaeth a chydweithredu ystyrion ar draws partneriaid i gefnogi rhoi Deddf Teithio Llesol ar waith a chynyddu lefelau teithio llesol yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da yn y Cynllun Gweithredu, ochr yn ochr â dyddiad targed ar gyfer cyflawni sy'n rhoi amser i Awdurdodau lleol gynnwys yr hyn a ddysgwyd yn y cylch mapiau rhwydwaith integredig nesaf. Dylid cynnwys arferion da yn y canllawiau a'u diweddarau wrth i'r dyluniadau ddatblygu.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gefnogi argymhelliad y Pwyllgor i alluogi nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da. Nid ydym yn ystyried bod angen disgwyl nes bod hwn wedi'i ymgorffori fel cam gweithredu mewn fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Gweithredu. Dylai nodi a rhannu arfer da ddiwydd yn barhaus a byddwn yn gweithio â phartneriaid i nodi'r dulliau mwyaf priodol o gasglu a rhannu enghreifftiau o'r fath.

Goblygiadau Ariannol – Y costau pennaf fydd amser staff yn Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner gyda mân gostau ychwanegol megis cyfieithu a lleoliadau. Caiff y rhain eu talu o gyllidebau Costau Rhedeg Isadrannol a rhaglenni presennol.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r prosiectau seilwaith y mae'n eu cyflawni i ddangos y dulliau teithio llesol arloesol y mae'n disgwyl eu gweld gan Awdurdodau lleol.

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ymgorffori ystyriaeth o'r ffordd orau y

gellir cryfhau dulliau teithio llesol o'r cychwyn cyntaf mewn unrhyw brosiectau seilwaith newydd. Mae proses newydd Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a ddilynir gan bob prosiect, wedi'i chynllunio i sicrhau bod arbenigedd teithio llesol yn rhan o bob cam ac mae'n rhoi pwyslais mawr ar ymgysylltu'n gynnar. O ran cynlluniau sy'n bodoli eisoes, byddwn yn gweithio â phartneriaid cyflawni a rhanddeiliaid eraill i nodi cyfleoedd i wella rhagor ar adegau allweddol yn y broses ddylunio ac adeiladu fanwl.

Goblygiadau Ariannol – Ddim yn hysbys. Mae elfennau teithio llesol yn rhan o gostau cyffredinol cynlluniau ac yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Mae gordewdra yn broblem gynyddol yn y sector iechyd. Mae teithio llesol a ffyrdd o fyw llesol yn ffordd gymharol rad o fynd i'r afael â'r broblem hon. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i lechyd Cyhoeddus Cymru flaenoriaethu hyrwyddo teithio llesol a newid ymddygiad fel un o'i nodau allweddol ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn/y tair blynedd nesaf. Fel rhan o'r rôl honno, dylai lechyd Cyhoeddus Cymru fod yn ymyrryd yn amlwg a dwyn rhanddeiliaid i gyfrif lle mae'n credu bod cyfleoedd i symud yr agenda teithio llesol yn ei blaen mewn perygl o gael eu colli.

Ymateb: Derbynn mewn Egwyddor

Mae cynyddu lefelau gweithgaredd corfforol ledled Cymru yn un o brif ymrwymadau ein strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*. Fel rhan o gyflawni hyn mae lechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael y dasg o gydweithio i ddatblygu camau gweithredu i gynyddu lefelau gweithgaredd corfforol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried rôl teithio llesol. Bydd y sefydliadau yn adrodd ar gynnydd i Weinidogion yn yr Hydref.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn lansio ymgynghoriad ar y strategaeth gordewdra yn yr Hydref. Y nod fydd ystyried nifer o gamau gweithredu cydweithredol i gynyddu'r nifer sydd â phwysau iach ar draws cyfnodau bywyd, a fydd yn cynnwys thema benodol ar gymunedau llesol. Bydd yn ystyried cyfleoedd i ddatblygu newid ymddygiad ac i sicrhau bod arweinyddiaeth glir o ran cynyddu nifer ein poblogaeth sydd â phwysau iach, sy'n cynnwys bod yn fwy gweithgar yn gorfforol.

Mae Llywodraeth Cymru fodd bynnag yn cydnabod bod gan Deithio Llesol rôl allweddol o ran helpu i fynd i'r afael ag ystod eang o faterion iechyd cyhoeddus sy'n ymestyn y tu hwnt i ordewdra a gall geisio hybu llesiant yn ehangach. Bydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i chwarae rhan o ran dangos arweinyddiaeth a chefnogi newid ymddygiad, gan gynnwys ym maes Teithio Llesol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyfleoedd i bobl geisio cerdded a beicio am y tro cyntaf, gan gynnwys drwy ariannu mentrau cerdded megis Dewch i Gerdded Cymru

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd i gerdded a beicio drwy ystod o ddulliau.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru greu llinell gyllideb gylchol ar gyfer cyllid teithio llesol, er mwyn rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol ynghylch yr ymrwymiad hirdymor i'r agenda hon. Dylid pennu cyllid cyfunol, sef cyfalaf a chyllid ar gyfer adnoddau, ar £17-£20 y pen y flwyddyn. Os na ellir dod o hyd i gyllid ychwanegol, bydd yn rhaid i hyn ddod o rannau eraill o'r gyllideb drafndiaeth.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Cronfa Teithio Llesol gyda dyraniad cyfalaf cychwynnol o £60 miliwn dros dair blwyddyn ariannol. Ategir hyn gan gyllid o'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, y Gronfa Trafnidiaeth Leol a chyllidebau ar gyfer cynlluniau teithio llesol sy'n gysylltiedig â'n rhwydwaith ni ein hunain. Gyda'i gilydd disgwylir i gyllid cyfalaf ar gyfer Teithio Llesol fod oddeutu £90 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae cyllid referniw o gyllidebau trafndiaeth yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, gan fod y mwyafrif ohono yn cael ei dalu fel grant i awdurdodau lleol, ond fel arfer mae oddeutu £1.8 miliwn.

Goblygiadau Ariannol - Mae £60 miliwn ychwanegol wedi'i sicrhau o gyllidebau canolog ar gyfer y cyfnod 2018/19-2020/21. Er mwyn cyflawni uchelgais lawn y Pwyllgor byddai angen i gyllideb cyfalaf a referniw blyneddol rhwng £53 miliwn a £62 miliwn fod ar gael ar gyfer teithio llesol.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrrff proffesiynol a CLILC i ddatblygu, a darparu ar sail ranbarthol, hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ac aelodau etholedig. Yn dilyn rhaglen hyfforddi gychwynnol, dylid ymgorffori hyfforddiant teithio llesol yn y rhaglenni datblygiad parhaus sydd eisoes ar waith.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi CLILC i ddatblygu briffiau a gwybodaeth i Aelodau. Gan gysylltu hefyd ag argymhelliad 6, byddwn yn gweithio â'r sefydliadau proffesiynol a phartneriaid eraill i gynnwys ystyriaeth effeithiol o deithio llesol fel rhan o raglenni a digwyddiadau hyfforddiant proffesiynol.

Goblygiadau Ariannol – Mân oblygiadau. Y bwriad yw cynnwys codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant Teithio Llesol gymaint â phosibl mewn rhaglenni a digwyddiadau sy'n bodoli eisoes. Bydd sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth penodol ar sail ranbarthol ledled Cymru yn arwain at rai costau, a delir o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru gymhwyso gofynion teithio llesol yn llym wrth ystyried cynigion cynllunio ar gyfer rhaglenni strategol megis Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r system Metro newydd, gan sicrhau bod seilwaith a chyfleusterau yn cael eu hystyried yn allbynnau craidd.

Ymateb: Derbyn.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ceisio cynyddu nifer y teithiau bob dydd ar droed ac ar feic, megis y daith i'r ysgol. O ganlyniad i'r Ddeddf, mae angen i awdurdodau lleol gynllunio a datblygu rhwydweithiau teithio llesol integredig, a chysylltu sbardunau allweddol ar gyfer teithiau, gan gynnwys ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i unrhyw brosiect Ysgol yr 21ain Ganrif gynnwys darpariaeth ar gyfer mynediad diogel a chyfleus i gerddwyr a beicwyr.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 21

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n ranbarthol gyda'r heddlu ac awdurdodau lleol i gytuno ar ffyrdd arloesol o fynd i'r afael â pharcio ar balmentydd, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'i effaith er mwyn newid ymddygiad gyrwyr. Dylid defnyddio cyd-gynhyrchu cymunedol i nodi lleoliadau i'w targedu ac atebion posibl i'r broblem hon.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Gall parcio ar balmentydd fod yn beryglus ac achosi rhwystrau difrifol i deithio llesol ac mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gefnogi argymhelliad y Pwyllgor i fynd i'r afael â'r mater. Mae gan awdurdodau lleol y pŵer i gyfyngu ar barcio ac mae'r rhan fwyaf eisoes wedi cymryd camau gorfodi mewn perthynas â pharcio. Mae enghreifftiau da lle mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r gymuned i geisio cyfyngu ar barcio ar balmentydd a'i wneud yn annerbyniol yn gymdeithasol, yn enwedig o amgylch ysgolion, gyda pheth llwyddiant. Mae ymgysylltu ac archwiliadau fel rhan o broses ddatblygu a chwblhau rhwydweithiau teithio llesol yn cynnig cyfle i nodi ardaloedd lle mae parcio ar balmentydd yn achosi problemau penodol ac i ganolbwyntio ein hymdrechion yn effeithiol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 22

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru geisio lloïo Llywodraeth y DU i gynnwys darpariaeth ar gyfer beiciau wedi'u haddasu yn y Cynllun Beicio i'r Gwaith.

Ymateb: Derbyn

Mae llawer o bobl a fyddai'n cael budd o'r cyfle i gael beic ychydig yn wahanol o dan y Cynllun Beicio i'r Gwaith. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i feiciau wedi'u haddasu a gall gynnwys e-feiciau a beiciau sy'n gallu cludo plant a llwythi eraill. Gallai hyn oll alluogi pobl i feicio i'r gwaith, pobl sy'n methu â gwneud hynny fel arall. Mae cost y rhan fwyaf o'r beiciau hyn yn fwy na'r uchafswm presennol o dan y cynllun beicio i'r gwaith. Byddwn yn parhau i lloïo Llywodraeth y DU i godi trothwy uchaf y cynllun.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 23

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru greu cymhellion i annog ailgylchu hen gyfarpar y Cynllun Beicio i'r Gwaith blaenorol a beiciau o ansawdd da eraill yn ôl i'r gymuned am bris fforddiadwy.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor.

Mae enghreifftiau da o gynlluniau cymunedol i ailgylchu beiciau sy'n galluogi pobl i brynu beiciau am bris isel. Gall cynlluniau o'r fath leihau'r rhwystrau i feicio i bobl ar

gyflogau isel neu'r rhai sy'n ansicr a fyddant eisiau parhau. Byddwn yn gweithio â phartneriaid ar y Bwrdd Teithio Llesol i ymchwilio i'r achos dros gefnogi cynlluniau, gan gynnwys edrych ar sut mae cynlluniau cymhelliant yn y sector preifat wedi gweithio, lle mae siopau beiciau yn cynnig gostyngiad os caiff hen feic ei gyfnewid am un newydd, a chaiff yr hen feic wedyn ei basio ymlaen i gynllun cymunedol i ailgylchu beiciau.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 24

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru annog darparu dosbarthiadau cynnal a chadw beiciau mewn ysgolion a chymunedau ledled Cymru.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu hyfforddiant beicio safonol cenedlaethol ledled Cymru. Mae'r safon genedlaethol ledled y DU wrthi'n cael ei diwygio ar hyn o bryd. Mae cynnal a chadw beiciau yn rhan o'r safon newydd ddrafft, ond rhagwelir y bydd hyn yn parhau yn elfen ddewisol gyda'r hyfforddiant yn canolbwyntio'n bennaf ar feithrin y sgiliau i feicio'n ddiogel ac yn hyderus. Mae rhaglen Teithiau Llesol yn cynnwys hyfforddiant sgiliau cynnal a chadw beic/sgwter ar gyfer ysgolion sy'n cymryd rhan. Mae canllawiau sy'n cyd-fynd â'r rhaglen ac sydd ar gael i bob ysgol yn cynnwys syniadau ynglŷn â sut i gynnwys hyfforddiant cynnal a chadw beiciau.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.